

No.

PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, L. Burnett, V.P. Driscoll, R. Fisher, C.P. Franks, E. Goodjohn, H.C. Hamilton, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea, M.J.G. Morgan and R. Sivagnanam.

793 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

794 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson.

795 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 2023 fel cofnod cywir.

796 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

797 DIWYGIAD ARFAETHEDIG I AMODAU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT (CAT) -

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Polisi Trwyddedu, i geisio cymeradwyaeth i ddiwygio amodau trwyddedau Cerbyd Hacni a Llogi Preifat er diogelwch y cyhoedd.

Ar ôl ystyried y mater, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu:

No.

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad, a chytuno i gynnwys yr amod isod yn yr amodau i Gerbydau Hacni a Llogi Preifat:

Yn achos Trwyddedeion/Perchnogion sy'n rhentu, prydlesu, llogi neu fenthyg eu [Cerbyd Hacni] [Cerbyd Hurio Preifat], bydd y Trwyddedai/Perchennog yn cadw a darparu cofrestr addas gan nodi ynddi'r manylion canlynol am y gyrrwr y rhentwyd, llogwyd, prydleswyd neu fenthycwyd y cerbyd iddo.

- a) Enw a chyfeiriad y gyrrwr
- b) Rhif y bathodyn a dyddiad dod i ben y Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat y gyrrwr
- c) Rhif plât a rhif cofrestru'r cerbyd i'w rentu, llogi, prydlesu neu fenthyg
- ch) Dyddiad(au) ac amser(oedd) rhentu, llogi, prydlesu neu fenthyg y cerbyd gan y gyrrwr.

Rhaid cadw'r cofnodion am o leiaf 12 mis mewn trefn gronolegol a rhaid eu cyflwyno ar gais i swyddog awdurdodedig y Cyngor neu gwnstabl yr heddlu i'w harchwilio.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn hyrwyddo diogelwch y cyhoedd drwy gryfhau'r amodau trwyddedu cerbydau presennol.